CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG: ADOLYGIAD O'R MESURAU RHEOLI TIR (ADOLYGIAD ECHEL 2)

Cefndir/Cynnydd

Fel y rhagwelwyd yn y Cynllun Datblygu Gwledig a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn gynharach eleni, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwneud adolygiad o'r cynlluniau rheoli tir sy'n dod o dan Echel 2 y Cynllun, er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn y dyfodol yn ystyried effeithiau diwygio'r PAC a'u bod yn fwy cydnaws a'i amcanion polisi amgylcheddol megis y rhai sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Bydd canlyniad yr adolygiad yn dylanwadu ar gynigion ynglŷn â dyrannu adnoddau ar gyfer Echel 2 yn y dyfodol, gan gynnwys y modiwleiddio gwirfoddol ychwanegol arfaethedig o 2009 ymlaen, a fydd yn darparu arian ychwanegol ar gyfer mesurau newydd ym maes rheoli tir. Rhagwelir y caiff addasiad ei gyflwyno yn ystod 2009 er mwyn gweithredu'r cynigion.

Mae'r adolygiad wedi hen ddechrau ac wedi derbyn gwybodaeth gan grŵp o randdeiliaid. Mae'r grŵp wedi cyfarfod pedair gwaith ac wedi mynd ar ymweliadau maes er mwyn edrych ar y prosiectau arddangos ffermio sensitif i ddalgylch afon a chlywed barn ffermwyr sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Bydd yr adolygiad hefyd yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y ddogfen *Cymru'n Un* i ymchwilio i gyflwyno cynllun grant ar gyfer cnydau ynni. (Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai unrhyw gynllun yn cael ei weithredu o dan Echel 1 y Cynllun).

Cynllun/Cynigion

Cynhelir ymgynghoriad cyn bo hir ar y cynigion sy'n datblygu. Rhagwelir y caiff manylion pendant y cynigion terfynol eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

Pwyntiau Penderfynu

Nodi'r sefyllfa bresennol.